

Ein Cynllun Lles

Cwm Taf Morgannwg Mwy Cyfartal

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn dod â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus blaenorol yng Nghwm Taf, yn cynnwys ardaloedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, a Phen-y-bont ar Ogwr i ffurfio un gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r bwrdd newydd hwn yn cynnwys cyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau'n lleol er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol drwy osod amcanion a fydd yn cyflawni'r Nodau Llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'n rhaid i ni wneud hyn drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu gynaliadwy sy'n golygu bod angen i'r BGC wneud yn siŵr eu bod nhw'n ystyried yr effaith y gallan nhw ei gael wrth wneud penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Rydyn ni'n defnyddio'r pum ffordd ganlynol o weithio o'r Ddeddf i'n helpu ni i wneud hyn



Tymor Hir

Ymglymiad

Ataliad

Cydweithio

Integreiddio

Mae dros 450,000 o bobl yn byw yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae lles yn ymwneud ag ansawdd bywyd, a sut mae hynny'n gysylltiedig â'r amgylchedd, yr economi, y gwasanaethau rydyn ni eu hangen a'r diwylliant rydyn ni'n ei rannu. Mae llawer o bethau wedi siapio ein cymunedau a'n lles fel treftadaeth ddiwydiannol, y dirwedd a'r diddordebau cyffredin mewn chwaraeon a'r celfyddydau, gan roi hanes cyfoethog a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Gellir ystyried y rhain fel ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol.

Mae ein [Asesiadau o Les](#) yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Lles hwn, mae'r data a'r wybodaeth a gafodd eu casglu wedi'u defnyddio ochr yn ochr â'r hyn mae cymunedau a phobl leol wedi'i ddweud wrthym am fywyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf.

Thema gyffredinol ein Cynllun Lles yw '**Cwm Taf Morgannwg Mwy Cyfartal**' ac mae hynny'n gyrru pob agwedd o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ôl ein Hasesiad Lles, mae gan y cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lawer i fod yn falch ohono. Fodd bynnag, nid oes gan bob cymuned fynediad teg at gyfleoedd ac maent yn wynebu heriau gwahanol sy'n effeithio ar les. Rydyn ni wedi dysgu o'n Hasesiad Lles i nodi sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd yn lleol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn mewn perthynas â'n ffordd o fyw, ein cymunedau, a'n hamgylchedd i wella'r lles i bobl sy'n byw yma nawr ac i adeiladu tuag at ddyfodol teg.

Mae'r cynllun drafft hwn yn amlinellu sut y byddwn ni'n cydweithio i gyflawni hyn.

Gweithio'n Wahanol

Mae aelodaeth, partneriaethau a rhwydweithiau byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn dod ag ystod eang o sefydliadau a grwpiau at ei gilydd. Wrth gydweithio ar ein hamcanion yn y Cynllun Lles hwn, bydd pob un yn gallu gwneud cyfraniad gwahanol. Ym mhob un o'n gweithgareddau cawn ein harwain gan y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn benodol, ar gyfer cyflawni'r cynllun, mae partneriaid byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud yr ymrwymadau canlynol




Bydd cynnwys a llais dinasyddion yn siapio dyluniad a darpariaeth y cynllun. Byddwn ni'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio mewn ffordd fwy cynhwysol a chydgyhyrchiol drwy weithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.



PS Mae sefydliadau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. Trwy eu maint a'u cyrhaeddiad, gallan nhw gyfrannu at ein hardal leol mewn sawl ffordd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau. Byddwn ni'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at wella lles drwy ddefnyddio ein hasedau i gefnogi cymunedau trwy gaffael, lleihau ein hól troed carbon ac fel cyflogwyr mawr pobl leol



Sefydlu llywodraethu rhanbarthol yn y BGC sy'n gyrru darpariaeth leol (yn seiliedig ar angen a gwella ecwiti) ac ymgyrchoedd ar lefel genedlaethol ar ran ein cymunedau.



Gwella deallusrwydd ar draws y rhanbarth, asiantaethau a phartneriaethau fel ein bod yn cydnabod ac yn adeiladu ar gryfderau niferus yr ardal ac yn deall yr achosion y tu ôl i'r heriau sy'n ein hwynebu.



Byddwn ni'n cadw ein llygad ar y dyfodol drwy ddefnyddio systemau sy'n meddwl a chanolbwyntio ar ganlyniadau fel ein bod yn gweithredu mewn ffordd a fydd yn gwneud gwelliannau cynaliadwy i les ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Amcan Un - Cymdogaethau lleol iach

Cwm Taf Morgannwg lle mae ein cymunedau'n gynhwysol ac yn teimlo'n cydlynus ac mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Dywedodd ein Hasesiad Llesiant wrthym ein bod eisiau:

Teimlo'n Gysylltiedig:



Yn ystod y cyfnod clo fe ddaeth ein cymunedau lleol at ei gilydd gyda mudiadau gwirfoddol a phartneriaid i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y gefnogaeth roedden nhw ei angen. Rydym yn falch o'n cymunedau lleol cryf, ond rydyn ni'n gwybod y gall unigrwydd effeithio ar unrhyw un, a dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddatgysylltiedig. Rydyn ni'n gwybod bod cymryd rhan yn ein cymuned yn dda i'n hiechyd meddwl, ac mae gweithgareddau a chyfleoedd lleol gwych. Serch hynny, mae rhai pobl, gan gynnwys y rhai ag anableddau, yn teimlo eu bod wedi'u heithrio ac mae costau a thrafnidiaeth yn gallu bod yn rhwstr.

Llefydd iach:




Mae cyfleoedd gwych i gadw'n heini ac yn iach yn ein cymuned, ond mae cyfraddau gweithgarwch corfforol yn isel, mae gennym lefelau uchel o ddiabetes a gordewdra, ac mae pobl mewn cymdogaethau mwy difreintiedig yn llai tebygol o wneud defnydd o'r mannau gwyrdd a glas o'n cwmpas. Mae cael gofodau lleol diogel a chyfleoedd fforddiadwy i fod yn egniol yn bwysig, gan gynnwys mannau chwarae i blant a phobl ifanc. Mae cael ystod dda o opsiynau bwyd fforddiadwy iach yn lleol hefyd yn ei gwneud hi'n haws gwneud dewisiadau gwell.

I deimlo a bod yn ddiogel:



Mae Cwm Taf Morgannwg yn lle diogel i fyw gyda gwaith da yn cael ei wneud i daclo troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl yn teimlo'n anniogel mewn rhai mannau neu ar adegau penodol. Mae ffigyrau diweddar yn dangos cynnydd mewn adroddiadau o droseddau casineb a cham-drin domestig hefyd. Rydyn ni'n cydnabod yr effaith y gall hyn ei chael ac rydym eisiau creu cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel a chael ymdeimlad o berthyn.

I fyw ein bywydau yn lleol:



Mae hybiau a chefnogaeth leol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Rydym am alluogi mwy o fyw'n lleol a fyddai'n adeiladu ar gryfderau a fydd o fudd i aelodau'r gymuned, darparu hyfforddiant lleol, mynediad lleol at wasanaethau, a chynnig defnydd a rennir o adeiladau lleol i ddod â gwasanaethau'n agosach at gymunedau. Byddai'r dull hwn yn lleihau cost teithiau ac yn annog teithio llesol a chefnogaeth i gael mynediad at fwyd fforddiadwy, o ansawdd yn lleol.

Drwy gydweithio ar yr amcan hwn, byddwn ni'n

Cefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol fel bod:



- mwy o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gysylltiedig;
- llai o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n unig; ac
- amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ar gyfer pawb sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o ddiddordebau

Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn ein cymunedau fel bod:



- mwy o bobl yn weithgar;
- llai o bobl, yn enwedig plant, yn ordew; a
- mwy o gyfleoedd i fod yn weithgar yn lleol ac yn fforddiadwy.

Cydweithio gyda chymunedau i adeiladu ymdeimlad o berthyn fel bod:



- mwy o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol;
- llai o bobl yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- chyfleoedd i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â phroblemau pan fyddan nhw'n digwydd.

Helpu pobl i gael mynediad at gefnogaeth, gwasanaethau a chyfleoedd yn eu cymdogaeth leol fel bod:



- mwy o bobl yn defnyddio teithio llesol;
- llai o bobl yn wynebu teithiau hir / costus i gael mynediad at wasanaethau; ac
- adeiladau cymunedol i bawb gael mynediad iddyn nhw a'u defnyddio.

Credwn y bydd gweithio fel hyn hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y saith nod Llesiant cenedlaethol:


Cymru lewyrchus	Cymru wydn	Cymru iachach	Cymru fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol ar draws y byd
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amcan Dau – Cymdogaethau lleol cynaliadwy a gwydn

Cwm Taf Morgannwg lle rydym yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio'r hyn sydd gennym yn gyfrifol ac yn ystyried newid hinsawdd a'i effaith ar ein cymunedau o ddifrif.

Dywedodd ein Hasesiad Llesiant wrthym ein bod eisiau:

Gwarchod a defnyddio ein gofodau naturiol:




Rydyn ni wrth ein bodd â'r mannau gwyrdd a glas o'n cwmpas ond gallem fod yn eu defnyddio'n well neu'n gwneud ymarfer corff, yn dod at ein gilydd neu dim ond bod allan yn yr awyr agored. Pan fyddwn ni'n eu defnyddio, rydym ni am sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw beth a allai effeithio'n negyddol ar y gofodau o'n cwmpas. Mae angen ecosystem iach arnom ar gyfer dŵr a bwyd ond mae llawer o'n rhywogaethau lleol o blanhigion, anifeiliaid a phryfed yn dirywio.

Gwneud mwy o deithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus:




Rydyn ni'n gweld bod teithio ar gyfer gwaith, siopa, apwyntiadau, a chymdeithasu yn gallu bod yn gostus ac yn anodd. Lle mae mwy o'r gwasanaethau, y busnesau, a'r gweithgareddau rydym ni'n eu defnyddio yn ein cymdogaethau lleol, gallwn ni ddefnyddio teithio llesol fel cerdded a beicio i'w cyrraedd a all wella ein hiechyd a lleihau nifer y teithiau sy'n dibynnu ar gerbydau.



Lleihau carbon a gwastraff:

Ar hyn o bryd, rydym ni'n defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd anghynaliadwy, ac mae hyn yn cyfrannu at yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gennym gyfraddau ailgylchu da eisoes ond mae mwy y gallwn ni ei wneud. Mae enghreifftiau gan bartneriaid ar leihau carbon a sut y gallwn ni oll gefnogi cynlluniau i ddod yn garbon niwtral. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae mewn lliniaru hinsawdd: lleihau gwastraff a'r defnydd o ynni i greu Cwm Taf Morgannwg glanach a gwyrddach.



Mynd i'r afael â Newid Hinsawdd a'i effeithiau:

Rydyn ni eisoes yn gweld effaith Newid Hinsawdd yn ein cymunedau. Mae llawer o drigolion wedi profi llifogydd dinistriol ac rydym ni hefyd yn gweld tymheredd cynyddol yn yr haf. Mae Cymru wedi datgan argyfyngau hinsawdd a natur ac rydym ni'n gwybod bod tywydd eithafol yn cael mwy o effaith mewn ardaloedd sydd ag incwm is. Mae angen addasu'r hinsawdd fel ein bod yn newid sut rydym ni'n defnyddio ein gofodau trefol a naturiol yn ymateb i newid yn yr hinsawdd a'r risgiau y mae'n eu hachosi.

Drwy gydweithio ar yr amcan hwn, byddwn ni'n

Gwella, defnyddio, a diogelu ein gofodau lleol naturiol fel ein bod yn gweld:



- manau gwyrdd mwy lleol, hygyrch a glas;
- llai o achosion o lygredd a thipio anghyfreithlon; a
- gwelliant yn iechyd ein hamgylchfyd, gan gynnwys ein hafonydd a'n bryniau.

Cefnogi cymunedau i ddefnyddio teithio mwy llesol yn eu bywydau bob dydd fel ein bod yn gweld:



- mwy o'r pethau rydyn ni eu hangen a'u defnyddio gerllaw;
- llai o deithiau'n cael eu cynnal mewn car; a
- gwelliant yn ansawdd aer a lefelau llygredd.

Deall sut y gall pob un ohonom ddefnyddio adnoddau yn fwy cynaliadwy fel ein bod yn gweld:



- mwy o ail-ddefnyddio ac ailgylchu ystod o ddeunyddiau;
- llai o alw am ynni; a
- gwell defnydd o'n tir a'n harfordir i helpu i 'ddal' carbon.

Gweithio gyda chymunedau i ddeall y gwahanol effeithiau a chyfleoedd ar gyfer lliniaru ac addasu Newid Hinsawdd fel ein bod yn gweld:



- mwy o ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ar draws cymunedau;
- llai o bobl, cymunedau, ac eiddo sydd mewn perygl; a
- mwy o hyder yn ein gallu i ymateb i heriau'r dyfodol.

Credwn y bydd gweithio fel hyn hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y saith nod Llesiant cenedlaethol:

Cymru lewyrchus	Cymru wydn	Cymru lachach	Cymru fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol ar draws y byd
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl

Hoffem i chi ddweud wrthym os ydych chi'n meddwl mai dyma'r pethau iawn i ni fod yn gweithio arnyn nhw. Gallwch chi ddysgu mwy am y byrddau gwasanaethau cyhoeddus a dod o hyd i ddolen i'n hymgyngoriad ar-lein [yma](#)